**Cynllun Hyder Busnes**

Mae Cymru yn croesawu busnesau, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae gennym Lywodraeth sefydlog sydd o blaid busnesau, sy'n cydweithio â'r gymuned fusnes a phartneriaid cymdeithasol i sicrhau twf a ffyniant.

Mae'r cynllun hwn yn pennu y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymeryd ar hyn o bryd i ennyn hyder busnesau, yn dilyn canlyniadau refferendwm yr UE.

Heddiw, rydym yn cyhoeddi Cronfa Twf a Ffyniant ar gyfer busnesau fydd yn cefnogi prosiectau busnes ble y mae swyddi, buddsoddiad a thwf yn ganolog iddynt. Rydym hefyd yn trafod gyda Cyllid Cymru ynghylch y cymorth y gallant ei gynnig i'r sector preifat yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda phob busnes sydd â phrosiect hirdymor gyda ni i edrych a oes modd cyflymu'r gwariant a'r buddsoddiad.

Byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i ddatblygu nifer a maint y cwmnïau o Gymru sy'n allforio, yn ogystal â datblygu gwerth masnach drwy ein hallforwyr presennol. Byddwn yn datblygu cynllun proactif ar gyfer cefnogi allforio fydd yn galluogi busnesau i fanteisio ar gyfleoedd byd-eang ar gyfer eu cynnyrch a'u gwasanaethau.

Byddwn yn ceisio rhannu ein neges o blaid busnes drwy blatfformau cyhoeddus i ennyn hyder busnesau. Mae'r broses hon ar y gweill gyda nifer o ddigwyddiadau busnes.

Rydym yn llunio rhaglen o ddigwyddiadau busnes i drafod yn uniongyrchol gyda busnesau, i glywed eu barn ac i'w sicrhau eu bod yn parhau i fod o blaid busnesau. Mae hyn yn cynnwys:

- Trafodaethau ford gron i fusnesau gan gytuno ar ffyrdd eraill i ennyn hyder busnesau.

- Cyngor Adfywio'r Economi fydd yn dod â chynrychiolwyr mudiadau busnes, Undebau Llafur a mentrau cymdeithasol ynghyd i rannu eu profiadau a'u pryderon a chytuno ar ffordd ymlaen.

- Cynhadledd yn y Gogledd i ystyried beth i'w wneud yn y tymor byr a chanolig.

- Dangos i'n Cwmnïau Angori a Chwmnïau o Bwys Rhanbarthol ein bod yn Llywodraeth sydd o blaid busnesau o hyd a'n bod am greu amgylchedd sefydlog i fusnesau yng Nghymru, trwy Fforwm Cwmnïau Angori a chyfarfod â Chwmnïau o Bwys Rhanbarthol.

- Cyfarfodydd â chwmnïau sydd â'u cyfrifon yn cael eu rheoli gyda'u Rheolwyr Cyfrifon neu Reolwyr Cysylltiadau Busnes Cymru.

- Ennyn entrepreneuriaid ifanc i fynegi barn trwy Syniadau Mawr i wneud yn siŵr bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn y drafodaeth.

- Sicrhau bod Busnes Cymru trwy ei sianeli digidol a'i newyddlen yn rhoi gwybodaeth a chyngor, yn enwedig am ein help i hyrwyddo busnesau; a gwneud ein help i allforwyr a mynediad i farchnadoedd rhyngwladol yn brif bwnc ein newyddlen nesaf i sicrhau bod y 45,000 sy'n tanysgrifio iddi yn gwybod am yr help sydd ar gael. https://businesswales.gov.wales/zones/export.

O ran datblygu sgiliau, rydym yn bwriadu lansio Rhaglen Prentisiaethau Pob Oed, fydd yn parhau i ddarparu'r sgiliau sydd ei angen ar gwmnïau a busnesau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn darparu amrywiol raglenni sgiliau fydd wedi'u cynllunio i fodloni anghenion cwmnïau sy'n buddsoddi yng Nghymru neu'n datblygu eu gweithgareddau yma. Mae manylion y cynlluniau hyn wedi eu hamlinellu ar y Porth Sgiliau ar wefan Busnes Cymru.

Mae ein Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cynnig rhaglen 5-mlynedd uchelgeisiol o brosiectau i foderneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth, gan gysylltu cymunedau a busnesau â swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau. Bydd ein hymrwymiad i ddatblygu‘r seilwaith yn parhau, gyda chynlluniau ar y gweill i gynnal amrywiaeth o brosiectau.  O ran prosiectau ffyrdd yn unig, gallai hyn gynnwys Adrannau 2, 5 a 6 ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd ar yr A465, coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd, cyffordd 28, ffordd gyswllt ddwyreiniol y Bae, gwneud twneli Bryn-glas yn fwy diogel, ffordd osgoi'r Drenewydd, Pont Ddyfi ar yr A487, gwelliannau i'r A494/A55/A548 yng Nglannau Dyfrdwy, pontydd Menai a Five Mile Lane.  Byddwn yn dal i bwyso ar Lywodraeth y DU i drydaneiddio Prif Lein y Gogledd.  Ar hyd yr amser, rydym am roi signalau clir i'r farchnad ynghylch y prosiectau sydd gennym ar y gweill.

Byddwn yn gweithio er mwyn hyrwyddo ac ymwreiddio'n gryfach ddeg elfen datganiad Polisi Caffael Cymru.  Er enghraifft, trwy gryfhau'n hymdrechion i leihau'r rhwystrau i gyflenwyr o Gymru a Busnesau Bach a Chanolig, cynyddu'r buddiannau i gymunedau a datblygu capasiti a galluoedd.

Byddwn yn hyrwyddo'r neges bod Cymru ar agor i fusnes trwy ddeunydd digidol a phrint, gydag ymgyrch ehangach yn dilyn yn yr Hydref i hyrwyddo Cymru fel y lle i ddechrau busnes, i ehangu'ch busnes ac i fuddsoddi ynddo. Yn y tymor byr, mae ein swyddfeydd tramor wrthi'n siarad â darpar fuddsoddwyr i ddweud ein bod ar agor i fusnes ac y bydd Cymru'n cael ei chynrychioli yn nhrafodaethau'r UKTI ar lefel y DU.

Bydd ymgyrch yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf i gefnogi busnesau twristiaeth yng Nghymru.  Byddwn yn parhau i elwa ar lwyddiant Cymru yn Euro 2016 i hyrwyddo Cymru i dwristiaid.

Hefyd, byddwn yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddatblygu cynlluniau cystadleurwydd ar draws y Llywodraeth.

Mae llawer o'r hyn rwy'n ei gynnig fodd bynnag yn dibynnu i ryw raddau ar arian o Ewrop ac mae'n hanfodol inni ein bod yn cael gwybod gan Lywodraeth y DU a fydd am anrhydeddu ymrwymiadau a chynlluniau presennol yr UE trwy gyfnewid unrhyw arian Ewropeaidd a gollir gan arian o Lywodraeth y DU.